# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 22 Mehefin 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseriad arfaethedig ac unrhyw rag-amodau sydd ynghlwm wrth y Ffordd Fynediad Ogleddol sy'n gysylltiedig â'r Coleg Amddiffyn a/neu Barc Aerofod arfaethedig yn Sain Tathan. (WAQ56116)

***Rhoddwyd ateb ar 01 Gorffennaf 2010***

Yn unol â'r amodau cynllunio, ni fydd y gwaith o adeiladu'r Ffordd Fynediad Ogleddol arfaethedig ar gyfer Cynllun Datblygu Sain Tathan yn dechrau tan y bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn a Metrix wedi cwblhau'r agweddau ariannol, a ddisgwylir ar hyn o bryd ar ddiwedd y flwyddyn hon.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Yn dilyn ateb y Gweinidog i WAQ55142, faint o Fyrddau Iechyd Lleol sydd nawr yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith. (WAQ56111)

***Rhoddwyd ateb ar 01 Gorffennaf 2010***

Mae'r holl Fyrddau, ac eithrio Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, yn cydymffurfio'r â'r Gyfarwyddeb Amseroedd Aros.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Yn dilyn ateb y Gweinidog i WAQ55261, a wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu argymhellion yr adroddiad. (WAQ56112)

***Rhoddwyd ateb ar 28 Mehefin 2010***

Mae cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i wneud ar hyd a lled gwasanaethau mamolaeth.

Mae Byrddau Iechyd Lleol yn mireinio eu cynlluniau datblygu i wella gwasanaethau mamolaeth, pediatreg a newyddenedigol.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Yn dilyn ateb y Gweinidog i WAQ55345, a wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf. (WAQ56113)

***Rhoddwyd ateb ar 28 Mehefin 2010***

Mae camau gweithredu'n cael eu cymryd i gynyddu nifer y paneli adolygu, cynyddu nifer y staff sy'n gysylltiedig ag adolygu cofnodion meddygol, gwella arfer gweinyddol, nodi'n gynt yr achosion hynny sy'n amlwg yn rhan o'n cylch gwaith ai peidio, darparu gwybodaeth ysgrifenedig well a chryfhau trefniadau rheoli perfformiad.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint a pha gyfran o bractisau meddygon teulu fydd yn cynnig y gwasanaeth Fy Iechyd Ar-lein i'w cleifion ar ôl cyflwyno'r cynllun yn llawn. (WAQ56114)

***Rhoddwyd ateb ar 28 Mehefin 2010***

Pan fydd Fy Iechyd Ar-lein ar gael bydd y broses o'i gyflwyno'n ehangach yn dibynnu ar ba mor gyflym y bydd pob practis meddyg teulu am ei gynnig i'w gleifion. Bydd modd hefyd i gleifion archebu amlbresgripsiynau a threfnu apwyntiadau â meddyg teulu. Bydd cyngor a gwybodaeth i helpu cleifion i reoli eu cyflyrau iechyd hefyd ar gael ar y wefan.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau ei bod yn dal yn bwriadu lansio'r Cynllun Gweithredu Hybu Iechyd Meddwl cyn diwedd 2010. (WAQ56115)

***Rhoddwyd ateb ar 28 Mehefin 2010***

Mae ymrwymiad i lansio ein Cynllun Gweithredu Hybu Iechyd Meddwl wedi'i gynnwys yn Ein Dyfodol Iach, Fframwaith Strategol ar gyfer Iechyd y Cyhoedd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthyf pryd wnaeth y broses gomisiynu ar gyfer adolygiad y Llywodraeth o ofal seibiant gymryd lle, faint o amser gymerodd y broses hon a phwy enillodd y tendr? (WAQ56117)

***Rhoddwyd ateb ar 28 Mehefin 2010***

Cyfeiriaf at ymateb y Gweinidog dros Fusnes ar 8 Mehefin i'ch cwestiwn i'r Prif Weinidog (OAQ (3)2922(FM)). Caiff hysbysiad a oedd yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb i gynnal adolygiad annibynnol o ofal seibiant yng Nghymru ei osod ar wefan PrynwchiGymru ar 8 Medi 2009, anfonwyd gwahoddiadau i dendro at sefydliadau ar y rhestr fer ar 26 Tachwedd 2009 a dyfarnwyd y contract i LE Wales ar 10 Chwefror 2010.